# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 3 Awst 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag a) Llywodraeth y DU; b) ei gymheiriaid yn y Cabinet; ac c) Cyngor Sir Caerdydd, ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno taliadau atal tagfeydd yng nghanol Caerdydd. (WAQ43900)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'n bwriadu rhoi unrhyw ganllawiau i Awdurdod Datblygu Cymru yn sgil yr adolygiad o gyllid Antur Dwyryd Llyn ym mis Mawrth 2004. (WAQ43906)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa dargedau a geir ar gyfer biodanwydd ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y camau a gymerwyd i fodloni'r targedau hynny. (WAQ43909)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A chymryd y daw Mesur Trafnidiaeth (Cymru) i rym, pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymgynghori arno. (WAQ43913)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A chymryd y bydd y diwydiant gweithgynhyrchu yn parhau i ddirywio, pa gynlluniau hirdymor a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei gyfer. (WAQ43914)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A chymryd y daw Mesur Trafnidiaeth (Cymru) i rym, pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i baratoi ar ei gyfer. (WAQ43915)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Ym mha ysgolion yn Sir y Fflint y mae 40% neu ragor o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. (WAQ43904)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Mewn sawl ysgol yn Sir y Fflint y mae 40% neu ragor o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. (WAQ43905)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'n bwriadu rhoi unrhyw ganllawiau i ELWa yn sgil yr adolygiad o gyllid Antur Dwyryd Llyn ym

mis Mawrth 2004. (WAQ43907)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grwp Llywio Strategol a'r is-grwpiau a sefydlwyd gan y Cynulliad i ystyried beicio modur oddi-ar-y-ffordd, a phryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r Grwp gwblhau ei waith. (WAQ43896)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi'r amserlen ar gyfer cytundeb gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ariannu datblygu gwledig. (WAQ43897)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt y trafodaethau ynghylch ailddynodi Ardaloedd Llai Ffafriol a'i effaith ar ddyfodol Tir Mynydd. (WAQ43898)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydliadau gwirfoddol sydd wedi cael cymorth ariannol o'r gronfa datblygu gwledig, a nodi a oes cyfle i sefydliadau o'r fath gael cymorth o dan echel newydd y Rheoliadau Datblygu Gwledig. (WAQ43899)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl ohebiaeth gan Weinidog Ynni'r DU sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag ynni gwynt a fferm wynt ar y môr Scarweather, a hynny ers mis Mehefin 2001. (WAQ43917)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ar ba ddyddiad y penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru beidio â rhoi Grantiau Prosesu a Marchnata i gwmnïau sy'n sefydlu y tu allan i ardaloedd Amcan Un. (WAQ43903) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y proffiliau swydd ar gyfer Parafeddygon a Thechnegwyr Meddygol Brys yng ngoleuni'r ‘Agenda ar gyfer Newid’. (WAQ43893)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid sydd ar gael i dalu'r cyfraddau cyflog newydd ar gyfer Parafeddygon a Thechnegwyr Meddygol Brys a fydd yn cael eu cyflwyno yn sgil yr ‘Agenda ar Gyfer Newid’. (WAQ43894)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu’r ‘Agenda ar gyfer Newid’ o ran ei effaith ar Barafeddygon a Thechnegwyr Meddygol Brys. (WAQ43895)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru’r canolfannau ‘galw i mewn’, a agorwyd gan y GIG yn Lloegr, y mae wedi ymweld â hwy ers iddo gael ei benodi. (WAQ43901)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer cleifion orthopedig allanol yng Ngwent. (WAQ43902)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog mwy o ddefnydd o Herceptin gan Rwydwaith Canser Gogledd Cymru er mwyn cysoni lefel y defnydd â'r De a'r De Orllewin. (WAQ43908)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog nodi pa Fyrddau Iechyd Lleol a dderbyniodd gymorth y cynllun newid ac effeithlonrwydd strategol yn y flwyddyn ariannol 2004/05 ynghyd â lefel y cymorth hwnnw, ac a wnaiff amcangyfrif lefel y cymorth ar gyfer blwyddyn ariannol 2005/06. (WAQ43910)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnal arolwg i weld pa mor effeithiol yw’r canllawiau ar gyfer 'Atal Trais yn erbyn Staff sy’n Gweithio yn y GIG’. (WAQ43911)

**John Marek (Wrecsam):** A wnaiff y Gweinidog restru holl ddeintyddfeydd y GIG yng Nghymru, gan nodi pa rai sy'n derbyn cleifion newydd a’u lleoliad daearyddol. (WAQ43912)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Beth yw cyfanswm y cyllid, wedi'i rannu'n gostau staffio a chostau gweinyddu, sydd ar gael ar gyfer prosiect Hysbysu Gofal Iechyd y GIG, a faint o staff fydd yn gweithio ar y prosiect. (WAQ43916)